FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

# Potiau Cynigion: Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFf)

## Canllawiau 2026/27

Ymgeisiwch am gyllid i ddangos ffilmiau annibynnol o'r DU, ffilmiau rhyngwladol a delweddau byw i gynulleidfaoedd ledled Cymru.

BFI FAN
BFI FILM AUDIENCE NETWORK
THE NATIONAL LOTTERY
CHAPTER

# Cynnwys


2 Cyflwyniad
Beth yw Potiau Cynigion y GAFf?
Ein Blaenoriaethau

4 Safonau Amrywiaeth y BFI

5 Atal Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth
Ydw i'n Gymwys?
Faint gallaf ofyn amdano?

6 Defnydd o'r Cyllid

7 Sut i Wneud Cais

8 Meini prawf asesu
Penderfyniadau ac Adborth

9 Cwyno ac Apelio
Camau Nesaf, Cysylltwch â ni a Cyllid Arall Sydd Ar Gael


# Cipolwg:

- **Cyllid:** hyd at £1,000
- **Ceisiadau:** Rhaglen dreigl
- **Cyfnod gweithgarwch:** Ebrill 2026 - 31 Mawrth 2027
- **Nod:** Datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol y DU (gan gynnwys ffilmiau o Gymru) a ffilmiau rhyngwladol, treftadaeth sgrin a delweddau byw.
- **Nodwch:** Dylai'ch gweithgaredd gychwyn o fis Ebrill 2026 ymlaen, er mwyn caniatáu penderfyniadau cyllido.

# Cyflwyniad

Rydym ni, Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, yn hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n sgrinio ffilmiau, o wyliau ffilm, i gymdeithasau ffilm a chanolfannau celfyddydau cymysg. Nod y cyfle ariannu Loteri yma yw dod â'r gorau o ffilmiau annibynnol y DU a ffilmiau rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled Cymru, gan wireddu blaenoriaethau strategaeth BFI Screen Culture 2033.

Rydym yn rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (FAN), sydd wedi derbyn cyllid Loteri Genedlaethol y BFI. Nod y cyllid yw cyrraedd cynulleidfaoedd ledled y DU, gan roi cyfleoedd iddynt fwynhau ystod eang o ffilmiau, waeth be fo'u lleoliad na'u hamgylchiadau.

Mae Chapter wedi'i benodi'n Sefydliad Arweiniol Canolfan Ffilm (SACFf) yng Nghymru.
Gweler enghreifftiau o brosiectau rydym wedi'u cyllido yma.

# Beth yw Potiau Cynigion y GAFf?

Mae Potiau Cynigion y GAFf yn estyniad o'r brif GAFf. Cyfle ariannu Loteri treigl cyflym ar gyfer grantiau o £1,000 neu lai.Mae'n cefnogi arddangoswyr i ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol y DU (gan gynnwys ffilmiau o Gymru) a ffilmiau rhyngwladol, treftadaeth sgrin a delweddau byw.

## Ein Blaenoriaethau

Gallwn gynnig cyllid tuag at brosiectau sy'n cyfateb ag un neu fwy o'r blaenoriaethau canlynol:

**Cynulleidfaoedd Ifanc:** Cyfleoedd i blant, pobl ifanc (25 oed ac iau) a theuluoedd i ddatblygu perthynas gyda diwylliant y sgrin. Gallai hyn gynnwys cynlluniau curadu pobl ifanc, clybiau neu brosiectau mewn partneriaeth ag arbenigwyr addysg ffilm. Bydd gofyn i sefydliadau ddangos bod ganddynt bolisïau diogelwch yn eu lle.

**Ymgysylltu â'r cyhoedd**: Mynediad i ddewis ehangach o ffilmiau a delweddau byw gan gynnwys ffilmiau annibynnol y DU (yn cynnwys ffilmiau o Gymru) a ffilmiau rhyngwladol, ffilmiau dogfen, teledu a threftadaeth sgrin i bobl ledled Cymru:

- Profiadau'r sgrin fawr yw ein blaenoriaeth, ond byddwn yn ystyried dangosiadau ar-lein/digidol lle mae budd amlwg i gynulleidfaoedd, megis anghenion mynediad,
- Rydym yn agored i ystyried technolegau trochol a rhyngweithiol megis hapchwarae, VR/AR a thechnoleg arall sy'n seiliedig ar sgrin sy'n rhyngweithio â phrofiadau sinema,
- Gwerth ychwanegol – mae gweithgareddau megis trafodaethau ar ôl y dangosiad, sesiynau holi ac ateb, gweithgareddau dysgu anffurfiol ac asedau creadigol i'w hannog.
- Rydyn ni hefyd am sicrhau bod ein cefnogaeth yn cyrraedd pob cwr o Gymru, ac wedi'i wasgaru'n deg yn ddaearyddol. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau mewn ardaloedd difreintiedig, megis awdurdodau lleol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cynlluniau Y Cynllun Cymdogaethau / Balchder Bro.

**Treftadaeth sgrin**: Rhagor o fynediad at gasgliadau archif cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru ac sy'n cynyddu gwerthfawrogiad o dreftadaeth ffilm ar draws pob oedran.

## Bydd angen i holl weithgareddau a noddir ateb yr egwyddorion craidd canlynol:

**Ecwiti a Chynhwysiant:** Mae FAN yn hybu cynhwysiant beunyddiol. Hoffem weld sut mae'ch prosiect yn amrywiaethu cynulleidfaoedd ar gyfer ystod eang o sinema, gan chwalu ffiniau cymdeithasol, economaidd a daearyddol, gan gynnwys:

- Rhaglenni dan arweiniad ac ar gyfer cymunedau lleiafrifiedig, sy'n blaenoriaethu profiadau bywyd go iawn ac yn ehangu cynrychiolaeth ar y sgrin, a hynny ymhlith cynulleidfaoedd, a lle fo'n bosib, yn y gweithlu arddangos. (e.e. cynulleidfaoedd LHDTQIA+, cynulleidfaoedd Du a Mwyafrif Byd-eang, grwpiau hŷn, cynulleidfaoedd anabl, anghenion aml-synhwyraidd, cynulleidfaoedd dosbarth gweithiol, gwledig ac wedi'u tan wasanaethu, grwpiau ynysig, ieithoedd lleiafrifol a chaledi economaidd),
- Rhaglenni sy'n blaenoriaethu estyn allan, ac sydd ag ymgysylltu cymunedol wrth galon eu gwaith.

**Mae'n bosib y bydd cyngor a chefnogaeth ychwanegol ar gael i brosiectau sydd ag amcanion cynhwysiant cryf sy'n mynd i'r afael a'r pethau canlynol:**

- Rhwystrau economaidd ac / neu ymgysylltu â chynulleidfaoedd dosbarth gweithiol,
- Mynediad ar gyfer Cynulleidfaoedd Byddar ac Anabl,
- Cynnwys cynulleidfaoedd Du a'r Mwyafrif Byd-eang;
- Ymgysylltu â phlant, teuluoedd a chynulleidfaoedd ifanc 25 oed ac yn iau.

Gall cynigion sy'n ffocysu ar un neu fwy o'r meysydd hyn gael eu rhannu gydag arbenigwyr llawrydd. Byddwn yn cysylltu ag unrhyw ymgeiswyr cymwys i drafod a fyddai cefnogaeth yn ddefnyddiol, ac os felly, pa fath o gefnogaeth. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch wrth gwblhau eich cais, cysylltwch â ni.

- **Cynaliadwyedd Amgylcheddol**: Rydym wedi ymrwymo i leihau ar effaith amgylcheddol negyddol y gwaith yr ydym yn ei gefnogi ac yn gofyn i bob cynnig cyfrannu at y nod hwn. Byddwn yn gofyn i chi grynhoi'r camau rydych chi'n eu cymryd i leihau effaith amgylcheddol eich gweithgarwch a chynyddu ymwybyddiaeth y gynulleidfa o argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

  Gweler ein hadran adnoddau ar gyfer ysbrydoliaeth, sy'n cynnwys esiamplau megis Ffilmiau Gwyrdd ar y Sgrin Fawr: Rhaglennu ar gyfer ein Planed.

  Mae gan Y BFI a Julie's Bicycle nifer o adnoddau defnyddiol y gallai fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio o amgylch cynaliadwyedd, gan gynnwys Sustainable Screen Hub gan y BFI a Creative Climate Tool.

**Rydym hefyd yn gweithredu cronfa sgiliau**: Hybu gwybodaeth, hyder a gallu ar draws aelodaeth BFI FAN. Gweler ein Canllawiau Hyfforddiant a Sgiliau er mwyn gwneud cais am fwrsari.

# Safonau Amrywiaeth y BFI

Dylai gynigion prosiect fynd ati i ddatblygu cynulleidfa mewn ffordd gynhwysol, gan ddweud sut y bydd yn ateb safonau amrywiaeth diwygiedig y BFI. Golygir hyn rhoi ystyriaeth deg i gynrychiolaeth ar y sgrin, yn y gweithlu (lle fo'n addas), a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn teimlo'n gartrefol yn eich lleoliadau sinema.

Mae'r safonau yn ffocysu ar nodweddion gwarchodedig fel y diffiniwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn berthnasol i oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, hunaniaethau anneuaidd a rhyweddhylifol – yn ogystal â chefndir economaidd-gymdeithasol, iaith, dyletswyddau gofalu, lleoliad daearyddol a phrofiadau croestoriadol.

Bydd gofyn i ddyfarniadau mwy ymateb mewn mwy o fanylder. Gweler canllaw Sinema Gynhwysol, 'Dismantling Structural Inequality in Your Cinema' er mwyn cefnogi gweithgarwch a chysylltwch â ni os ydych angen cymorth yn dadansoddi'r safonau. Gweler ein hesiamplau o arfer orau yma.

# Atal Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth

Mae llawer o waith i'w wneud i greu gweithleoedd diogel a pharchus ar draws y diwydiannau sgrin. Mewn ymateb i broblemau brys a systemig, datblygodd BFI a BAFTA set o egwyddorion a chanllaw dim goddefgarwch mewn ymgynghoriad â sefydliadau, undebau a chyrff o fewn y diwydiannau ffilm, teledu a gemau. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddarllen a rhannu'r rhain gyda'u sefydliadau.

Petaech am drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon, gofynnwn i chi ddarllen ein proses rhoi adborth a chysylltu â ni yma.

# Ydw i'n Gymwys?

Mae'n rhaid i chi fod yn aelod BFI FAN er mwyn cael mynediad at gyllid Canolfan Ffilm Cymru. Ni all wneuthurwyr ffilmiau ac / neu unigolion ymgeisio. I ymaelodi, cwblhewch ein Ffurflen Ymaelodi.

Mae aelodaeth am ddim i sefydliadau cymwys ac yn cynnig mynediad i'n hystod o gyllid, cefnogaeth a buddion.

# Faint gallaf ofyn amdano?

Gall aelodau ofyn am hyd at £1,000 fesul cynnig. Os ydych angen grant mwy neu grant tymor hir, yna gweler y brif GAFf.

Er nad oes gennym ni ganran benodol ar gyfer ariannu cyfatebol, rydym yn disgwyl gweld incwm swyddfa docynnau a chefnogaeth bartneriaeth arall – pa unai'n arian, amser gwirfoddol neu gyfraniadau arall tebyg.

Dyddiad cau treigl sydd i geisiadau. Byddwn yn anelu i adolygu eich cais o fewn pythefnos. **Mae'n rhaid i'ch gweithgaredd gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2027.**

# Defnydd o'r Cyllid

## Treuliau cymwys

- Hawliau ffilmiau a thrafnidiaeth,
- Clirio hawliau a churadu,
- Costau staffio prosiect, e.e. rheoli prosiect neu dreuliau teithio,
- Llogi lleoliad neu offer,
- Marchnata, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus,
- Costau digwyddiad, e.e. ffioedd siaradwr gwadd, talent neu artist,
- Treuliau gwirfoddolwyr,
- Costau gwerthuso,
- Hygyrchedd – e.e. adnoddau cefnogi, ffioedd is-deitlo,
- Ymgysylltu e.e. ymgysylltu cymunedol neu drafnidiaeth i gynulleidfaoedd ynysig,
- Datblygu cynulleidfa arall – e.e. gweithdai rhaglenwyr ifanc,
- Gweithgareddau ar-lein, megis ffioedd platfformau gwe neu westeia,
- Costau cyfieithu.

**Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'n bosib caiff eitemau eraill eu hystyried.**

## Treuliau Anghymwys

- Premieres ffilmiau,
- Creu ffilmiau (cynhyrchu a / neu ddatblygu ffilmiau) neu weithdai sy'n ymwneud a chreu ffilmiau,
- Ceisiadau gan ddosbarthwyr ffilmiau / gwneuthurwyr ffilmiau i dalu am ymgyrchoedd rhyddhau ffilmiau,
- Gweithgareddau addysgu ffurfiol / digwyddiadau ysgol,
- Arian ar gyfer offer ffilm newydd neu adnewyddu adeilad,
- Sefydlu cynnig dangosiad ffilm newydd, clwb ffilm / cymdeithas (gallwn gefnogi unwaith yn fyw / actif) neu ŵyl lle nad oes cynllun clir ar gyfer datblygu cynulleidfa,
- Dangosiadau lle nad yw trefnwyr wedi sicrhau trwydded ffilm gan y deiliad hawliau,
- Digwyddiadau caeedig nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, yn cynnwys digwyddiadau ffilm i fyfyrwyr, arddangos i'r diwydiant, seremonïau gwobrwyo, neu ddigwyddiadau heb eu tocynnu lle na all gofnodi niferoedd,
- Gwyliau ffilmiau sy'n seiliedig ar gais. Rydym hefyd yn annhebygol o ariannu rhaglenni cyfan o ffilmiau byrion, heb ffilmiau hir cysylltiedig,
- Rhaglenni nad yw ffilm yn brif ffurf gelf, megis opera, llenyddiaeth, dawns ar ffilm, neu raglenni sy'n llawn o ddelweddau byw gan artistiaid,
- Costau rhedeg sy'n amherthnasol i'r gweithgaredd neu weithgaredd sy'n derbyn cyllid arall,
- Rhaglenni sy'n dyblu darpariaeth yn yr un ardal.

- Mae'r pot cynigion hwn yn cefnogi tymhorau o ddigwyddiadau sy'n rhai untro neu'n fyr, ond mae'n rhaid i gynigion gyflwyno potensial o hyd ar gyfer datblygu cynulleidfa yn y gymuned honno / ar gyfer y sefydliad sy'n gwneud y cais. Gall digwyddiadau sy'n cael eu cynnal mewn mannau preifat lle mae potensial cyfyngedig i gynulleidfaoedd ddychwelyd i ddigwyddiadau ffilm lleol yn y dyfodol (fel bariau neu hurio preifat) gael eu hystyried yn anghymwys.

## Treuliau gydag amodau:

- Ar gyfer ceisiadau (megis gwyliau sy'n teithio) lle na fydd arian yn mynd yn uniongyrchol i ganolfannau sinema sy'n cymryd rhan ond mae disgwyl iddynt ddarparu gweithgaredd ar ran y trydydd parti hwnnw, a / neu dalu ffi am wasanaethau megis llogi ffilm - dylai cytundeb clir fod ar waith gyda'r ganolfan, gyda buddion i'w cynulleidfa.

- Ymgeiswyr o'r DU sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd eraill. Ni fydd yn flaenoriaeth os ydych yn bwriadu sefydlu gwaith yng Nghymru, megis teithio rhaglenni. Gallwch wneud cais os gallwch ddangos bod galw am eich rhaglen gan ganolfannau yng Nghymru ar gyfnod ymgeisio.

- Awgrymwn eich bod yn siarad gyda Chanolfan Ffilm eich ardal chi fel cam cyntaf y broses. Dylech hefyd ddarllen canllaw Cronfa Brosiect Cynulleidfa y BFI i weld os yw eich cynlluniau yn ateb y meini prawf cenedlaethol,

# Sut i Wneud Cais

Os ydych yn dymuno gwneud cais, bydd angen i chi gyflwyno cynnig a chyllideb – mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Os oes gennych anghenion hygyrchedd sy'n golygu bod arnoch angen cymorth gyda'r broses, mae'n bosib y byddwch yn buddio o gynllun Cymorth Hygyrchedd y BFI.

Os nad ydych wedi derbyn arian gan CFfC yn y gorffennol, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni ymlaen llaw.

Os oes gennych chi brosiect a dderbyniodd gyllid CFfC ar waith ar hyn o bryd, bydd angen adroddiad y prosiect arnom er mwyn asesu'r canlyniadau cyn y gallwn ystyried cynnig newydd am gyllid.

# Meini prawf asesu

**Bydd tîm Canolfan Ffilm Cymru yn asesu eich cynnig.
Byddwn yn edrych yn benodol ar:**

- **Cymhwysedd:** Pa un ai bod y gweithgaredd yn ateb blaenoriaethau'r gronfa,
- **Cyrraedd y gynulleidfa:** Eich cynulleidfa darged a pha un ai a ydy'r gweithgaredd yn ei chyrraedd. Bydd cymhorthdal y pen yn ystyriaeth, yn ogystal â lledaeniad daearyddol, i sicrhau bod ein cymorth ar gael ledled Cymru. Er ein bod yn deall bod hi'n anodd rhagweld niferoedd yn y cyd-destun cyfredol, gofynnwn i chi ddarparu amcangyfrifon ystyrlon. Os na wnaethoch gyrraedd eich targedau ar gyfer prosiect a ariennir gan CFfC mewn blwyddyn flaenorol, bydd angen i ni ddeall sut rydych chi wedi addasu eich dull.
- **Effaith:** Uchelgais ddiwydiannol y rhaglen arfaethedig. A oes galw amlwg gan y gynulleidfa? A yw'r detholiadau ffilm yn debygol o ddenu cynulleidfaoedd – er enghraifft, rhaglenni o deitlau annibynnol newydd nad ydynt yn cael eu dangos yn unman arall yn lleol, neu deitlau y gallai cynulleidfaoedd fod wedi'u methu. A oes partneriaethau perthnasol yn eu lle i gyflawni'r gweithgaredd?
- **Gallu'r sefydliad:** A yw'r sefydliad yn gallu cyflawni'r gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys profiad rheoli prosiect, gwybodaeth guradurol, tystiolaeth o lwyddiant blaenorol gyda phrosiectau tebyg,
- **Cyllideb:** Ydy'r gyllideb yn cydbwyso ac ydi pob cost yn gymwys. Ydych chi wedi cynnwys holl gostau rhesymol, gan gynnwys hygyrchedd?
- **Gwaddol:** Cynlluniau tymor hir i barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd ar ôl i'r gweithgarwch orffen. Os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn weithgaredd untro, sut gallai hynny gefnogi datblygiad cynulleidfaoedd yn y dyfodol?
- **Safonau Amrywiaeth y BFI:** Pa un ai bod y cynnig yn mynd i afael â'r Safonau.

**Rhoch enghreifftiau clir wrth ateb bob cwestiwn, er mwyn ein helpu ni i ddeall sut ydych yn ateb y meini prawf.**

# Penderfyniadau ac Adborth

Rydym yn rhoi adborth ar bob cynnig. Mae'n bosib y bydd angen gwybodaeth bellach ar y tîm cyn gwneud penderfyniad. Os fyddwch yn llwyddiannus byddwch yn derbyn e-bost sy'n nodi telerau megis adrodd, brandio a chyfarwyddiadau arolwg cynulleidfa.

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, ni fydd hyn yn eich atal rhag ailymgeisio ar gyfer prosiect arall, nac yn atal mynediad at gyfleoedd eraill y ganolfan, megis bwrsariaethau. Ni fyddwch yn gallu ailgyflwyno cynnig a wrthodwyd yn yr un flwyddyn ariannol. Os hoffech gyflwyno cais tebyg yn y dyfodol, cysylltwch â ni i drafod.

# Cwyno ac Apelio

Rydym yn disgwyl i'r gronfa fod yn boblogaidd tu hwnt, ac mae'n bosib na fydd eich cais yn llwyddiannus, er ei fod yn ateb y meini prawf.

Mae'r penderfyniad ariannu yn derfynol. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn cael eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos teilwng i gredu na gadwyd at drefn prosesu'r cais, neu os dilynwyd y drefn mewn ffordd a niweidiodd canlyniad y cais.

# Camau Nesaf

Os ydych yn dymuno trafod cynnig arfaethedig gyda CFfC cyn cyflwyno, cysylltwch â:

- **Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau** – lisa@filmhubwales.org / 02920 311067
- **Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru** – hana@filmhubwales.org / 02920 353740

# Cyllid Arall Sydd Ar Gael

- Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFf) (datblygu cynulleidfaoedd mwy rhaglenni)
- Gwnaethpwyd yng Nghymru (dylid ymgeisio i CAFf)
- Gwyliau (dylid ymgeisio i CAFf)
- Bwrsariaeth Hyfforddiant a Sgiliau

Os ydych yn chwilio am gyllid ar gyfer gweithgarwch na fedrwn ei ariannu, gwelwch ein hadnodd codi arian ar gyfer dolenni allanol.

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cefnogaeth marchnata a newyddion y diwydiant.